# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-08-11**

## CA574: Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003.

Mae'n rhagnodi, at ddibenion adran 512ZB(4)(aa)(ii) o Ddeddf Addysg 1996,

pan fo gan riant P hawl i gael Credyd Treth Plant ond dim hawl i gael Credyd Treth Gwaith

pan fo rhiant P yn cael Credyd Treth Plant ar sail incwm blynyddol nad yw'n uwch na £16,190, fod gan P hawl i gael ciniawau ysgol am ddim.

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhagoriaethau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i'w adrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

O dan Reol Sefydlog 15.3(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol a'i fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn hwn, mae Llywodraeth Cymru yn datgan:-

"This Order imposes no additional costs or additional duties on schools or Local Authorities, and no formal RIA has been undertaken".

Fodd bynnag, gan fod y Gorchymyn yn cadw'r trothwy Credyd Treth Plant presennol o £16,190 yn hytrach na chymhwyso'r trothwy Credyd Treth Plant is a diwygiedig o £15,860 a fydd yn gymwys yn Lloegr o 6 Ebrill 2011, mae nifer uwch o bobl yn debygol o fod yn gymwys i gael ciniawau ysgol am ddim yng Nghymru na phe na bai'r Gorchymyn wedi'i wneud. Mae'n anochel y bydd goblygiadau costau yn gysylltiedig â hyn, a dylent fod wedi cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol.

**Y Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Mawrth 2011**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Eleni yw'r tro cyntaf er 2002 na chafwyd cynnydd yn y trothwy incwm blynyddol i Gredyd Treth Plant.Pe na bai unrhyw ddiwygiad yn cael ei wneud i'r meini prawf ar gymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, byddai rhai teuluoedd wedi colli eu hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yr ydym felly yn torri'r cysylltiad â throthwy Credyd Treth Plant Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac yn ei ddisodli â throthwy incwm blynyddol o £16,190, er mwyn sicrhau bod y rheini sydd a chanddynt hawl ar hyn o bryd i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod â hawl iddynt ac felly'n lleiafu'r effaith ymarferol ar deuluoedd ac ar ysgolion.

Amcangyfrifir na fyddai tua 65 o blant sydd ar hyn o bryd yn cael prydau ysgol am ddim a chanddynt hawl i hynny pe bai'r meini prawf ar brydau ysgol am dddim yn parhau i fod yn gysylltiedig â throthwy incwm blynyddol Credyd Treth Plant o 6 April ymlaen.Gan hynny, mae torri'r cysylltiad yn golygu bod y goblygiadau ariannol i awdudodau lleol yn parhau i fod yr un fath.

Mae'r Adran Addysg hefyd wedi diwygio eu Gorchymyn hwy ac felly bydd y meini prawf ar gymhywster ar gyfer prydau ysgol am ddim yr un fath yng Nghymru a Lloegr.